CEWC CYMRU

COUNCIL FOR EDUCATION IN WORLD CITIZENSHIP - CYMRU

NEWSLETTER 05
SPRING

Active Citizenship for Wales and the World

# TEACHERS ELECT FOR NEW CEWC-CYMRU TRAINING



CEWC-Cymru has added **school councils** to the list of subjects on which we offer in-service training (INSET). Following research by Assistant Education Officer Kate Wolstenholme about democracy in schools in Wales, this is the second phase of our *Training for Democracy* project funded by the Electoral Commission.

The training sessions include advice on how to set up and run an effective school council in a primary, secondary or special school, and enable participants to share good practice. With a focus on developing sustainable school councils run by students, Kate also invites students to attend if teachers feel this is appropriate. The sessions use CEWC-Cymru's CD-ROM resource, *Your Say: Democracy in Schools and Beyond*, which includes factsheets, worksheets, and advice on introducing National Assembly for Wales Members into school council meetings.

Kate is also developing other training sessions, which focus on transition councils which bridge primary and secondary school students; democracy in whole-school policies; running a mock general election; and teaching democratic principles. If you wish to arrange a session at your school or college, please contact **katewolstenholme@wcia.org.uk**. To order our CD-ROM, contact **sheiladavies@wcia.org.uk**.

## FOCUS ON… CLASSROOM WORKSHOPS AND SPEAKER SERVICE

*Worried about that human rights session you need to deliver? Want to get your students to be more active as citizens? Wish you had more time to plan your lessons?*

CEWC-Cymru's speaker service could solve all these concerns. Our staff can deliver interactive classroom workshops to all age ranges, in any school, college or youth group in Wales. Member schools and colleges benefit from free sessions on topics such as human rights, refugees and asylum seekers, world trade, the work of the United Nations, sustainable development, conflict and debating skills. They may also receive visits from guest speakers, working for organisations as diverse as the International Labour Organization, Lesotho Electoral Commission, Save the Children and the United Nations High Commissioner for Refugees.

Non-members may receive free sessions on children's rights as part of our work for UNICEF's Education Support Service.

.

# COMPETITION NEWS

## SPANISH CIVIL WAR COMPETITION WINNERS




We were delighted with the quality of entries for last term's Spanish Civil War writing competition. Entrants had clearly researched the topic thoroughly and produced work which closely linked events in Spain to Wales. Judges for the competition were the historian/author Rob Stradling, Isabel Rubio of the Spanish government's education office in Wales, and Stephen Thomas, Director of the Welsh Centre for International Affairs. This is an extract from the entry awarded joint 1st prize, a beautifully decorated diary by Rhys Jervis and Amy Jenkins of Birchgrove Comprehensive School, Swansea, imagining the plight of an International Brigader from Wales called David Jones:

*"My first battle was on Christmas day. A town called Lopera had been taken over by fascists and we were ordered to restore it to its original state. It took a while to get used to fighting and it was a horrible sensation having to kill other human beings. Due to bad organisation, we were without food for three days, it was very hard to fight with an empty stomach. After that there was a series of battles, one where we had to be taken to southern Madrid where a big fascist offensive was planned, this was a very hard battle for me and the rest of my troops as there were so many people that were rebelling against us."*

The other joint 1st prize winner was Harriet Billingsley of Penglais Comprehensive School, Aberystwyth. 3rd place went to Michael Smidman of Brynteg School, Bridgend. Highly commended entries were submitted by Isabella Boorman, Laura Henderson and Andrea Thomas (all from Penglais) and Naomi Davies (Cefn Saeson Comprehensive School, Neath). We would like to thank all students who took part and made the judges' job so worthwhile.

## *RIGHT ON* ROCKS OUT!



*Right On*, CEWC-Cymru's annual human rights competition, has a new twist this year. We are asking students to write a song based on one of the following articles from the *Universal Declaration of Human Rights*:

- Article 18: freedom of thought, conscience and religion
- Article 19: freedom of opinions and expression
- Article 26: the right to education

Any type of ensemble may take part, from an electric band to a full school orchestra. Entrants are required to submit a copy of the chosen song on CD or tape, along with its lyrics and a short piece of writing describing its genesis. The closing date for the competition is 18 April, and winning entrants will be asked to perform in a **Battle of the Bands** event at a human rights conference in May. For more information, please e-mail **cewc@wcia.org.uk**.

# THE ART OF UNDERSTANDING



2004 saw an event exclusively for primary school pupils. Our **One World Conference** at Blackwood Miners' Institute in November featured arts-based workshops, which encouraged 7-11 year olds to discuss diversity and tolerance. During the morning, Cassy Healey of The Artery enabled pupils to create alphabet tiles, which made them think about positive inventions and emotions which unite the world. Phil Carradice then led the children in a poetry workshop in which they wrote poems about inclusiveness and celebrating difference, which have since been collected in an anthology. In the afternoon, Gwent Theatre led drama activities which considered the challenges of expressing yourself without words when you do not understand a language.

# ROCKY PATH FOR DEBATERS

Julian Hodge Bank



The 2004 Julian Hodge Bank Wales Schools Debating Championships once again proved popular, with 51 schools and colleges taking part in exciting and often heated debates. The Final was held at the Temple of Peace in November, pitting Stephen Jenkins and Steffan Powell (Amman Valley School) against Lewis Turner and Amy Ludlow (Caerleon Comprehensive School) on the motion *"This House supports global free trade"*. The adjudication panel of Paul James (Julian Hodge Bank) Dafydd Wyn (a former debating coach and organiser), Sue Rivers (Trustee, Welsh Centre for International Affairs), James Brimble (Wales Debating Federation) and Martin Pollard (CEWC-Cymru) chose the Ammanford team as the winners.

Steffan and Stephen automatically gained places on Wales's team for the 2005 World Schools Debating Championships. At an Individuals' Selection Day, three other debaters were chosen as the remainder of that team: Lewis and Amy (runners-up in the Final) and Harry Thomas (Christ College, Brecon).

The 2005 World Championships took place in Calgary, Canada in February, and included debates on space exploration, state funding of political parties and education policy. Wales won 5 of its 8 preliminary debates, giving us a ranking of 12th out of 31 countries. In the following round we were defeated by Argentina, who went on to become semi-finalists. The Championships were won by Australia for the third year running.

The Calgary event was also an opportunity for us to promote the next World Championships, which take place in Wales in July 2006. If your school wishes to host a debate during the World Championships, or if you can help out with the organisation of the event, please e-mail **convenor@wales2006.com**.

Design elfen.co.uk

CEWC CYMRU

CYNGOR ADDYSG MEWN DINASYDDIAETH BYD - CYMRU

# CYLCHLYTHYR 05

GWANWYN

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

## ATHRAWON YN PLEIDLEISIO DROS HYFFORDDIANT NEWYDD



Mae CEWC-Cymru wedi ychwanegu **cynghorau ysgol** at y rhestr o bynciau rydym yn cynnig ar ein rhaglen hyfforddiant mewn swydd. Yn sgil gwaith ymchwil gan y Swyddog Addysg Cynorthwyol Kate Wolstenholme i ddemocratiaeth mewn ysgolion yng Nghymru, dyma ail gyfnod ein prosiect *Hyfforddi ar gyfer Democratiaeth*, a noddir gan y Comisiwn Etholiadol.

Mae'r sesiynau hyfforddi yn cynnwys cyngor ar sut i sefydlu a rhedeg cyngor ysgol effeithiol mewn ysgol gynradd, ysgol uwchradd, neu ysgol arbennig, ac yn galluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i rannu arferion da. Mae Kate yn canolbwyntio ar ddatblygu cynghorau ysgol cynaliadwy a redir gan y disgyblion, ac mae hefyd yn gwahodd y disgyblion i gymryd rhan os yw athrawon yn teimlo bod hyn yn briodol. Mae'r sesiynau'n defnyddio adnodd CD-ROM CEWC-Cymru, *Dweud eich Dweud: Democratiaeth mewn Ysgolion a Thu Hwnt*, sy'n cynnwys taflenni ffeithiau, taflenni gwaith, a chyngor ar gyflwyno Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfarfodydd o gynghorau ysgol.

Mae Kate hefyd yn datblygu sesiynau hyfforddi eraill, sy'n canolbwyntio ar gynghorau sy'n pontio rhwng disgyblion cynradd ac uwchradd; democratiaeth mewn polisïau ysgol-gyfan; cynnal ffug-etholiad cyffredinol; a dysgu egwyddorion democrataidd. Os ydych yn awyddus i drefnu sesiwn yn eich ysgol neu goleg, cysylltwch â **katewolstenholme@wcia.org.uk**. I archebu ein CD-ROM, cysylltwch â **sheiladavies@wcia.org.uk**.

## EDRYCH AR… Y GWASANAETH SIARADWYR GWADD A GWEITHDAI YN Y DOSBARTH

*Ydych chi'n poeni am y sesiwn ar hawliau dynol mae disgwyl i chi ddysgu? Am weld eich disgyblion yn dod yn ddinasyddion mwy gweithgar? Hoffech chi gael rhagor o amser i gynllunio eich gwersi?*

Gallai gwasanaeth siaradwyr gwadd CEWC-Cymru ddatrys yr holl broblemau hyn. Gall ein staff ni gynnal gweithdai rhyngweithiol yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr o bob oed, yn unrhyw ysgol, goleg neu grŵp ieuenctid trwy Gymru. Bydd ysgolion a cholegau sy'n aelodau yn medru manteisio ar sesiynau rhad ac am ddim ar bynciau fel hawliau dynol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, masnach byd, gwaith y Cenhedloedd Unedig, datblygu cynaliadwy, gwrthdaro a sgiliau dadlau. Cânt hefyd dderbyn ymweliadau gan siaradwyr gwadd sy'n gweithio dros gyrff mor amrywiol a gwahanol â'r Corff Llafur Rhyngwladol, Comisiwn Etholiadol Lesotho, Cronfa Achub y Plant ac Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid.

Caiff ysgolion a cholegau nad ydynt yn aelodau sesiynau yn rhad ac am ddim ar hawliau plant yn rhan o'n gwaith ar gyfer Gwasanaeth Cefnogi Addysg UNICEF.

## NEWYDDION AM GYSTADLAETHAU

### ENILLWYR EIN CYSTADLEUAETH AR RYFEL CARTREF SBAEN




Roeddem wrth ein boddau gyda safon y cynigion ar gyfer cystadleuaeth ysgrifennu y tymor diwethaf ar y Rhyfel Cartref yn Sbaen. Roedd hi'n amlwg bod yr ymgeiswyr wedi gwneud gwaith ymchwil trwyadl i'r pwnc, a chynhyrchu gwaith a oedd yn dangos cysylltiadau eglur rhwng digwyddiadau yn Sbaen a Chymru. Beirniaid y gystadleuaeth oedd yr hanesydd/awdur Rob Stradling, Isabel Rubio o swyddfa addysg llywodraeth Sbaen yng Nghymru a Stephen Thomas, Cyfarwyddwr Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Dyma i chi ddyfyniad o'r cynnig cyd-fuddugol ar y wobr gyntaf, dyddiadur a ddarluniwyd yn hardd dros ben gan Rhys Jervis ac Amy Jenkins o Ysgol Gyfun Birchgrove, Abertawe, yn dychmygu argyfwng aelod o'r Frigâd Ryngwladol o Gymru o'r enw David Jones:

*"Ymladdais fy mrwydr gyntaf un ar ddydd Nadolig. Cipiwyd tref o'r enw Lopera gan ffasgwyr a chawsom ein gorchymyn i adfer y dref i'w chyflwr gwreiddiol. Cymerodd beth amser i mi ddod i arfer ag ymladd ac roedd lladd pobl eraill yn deimlad dychrynllyd. Roedd y trefniadau'n draed moch a buom heb fwyd am dri diwrnod, roedd yn galed iawn i ymladd ar fola gwag. Wedi hynny roedd cyfres o frwydrau, un lle bu'n rhaid iddyn nhw fynd â ni i ran ddeheuol Madrid lle roedd cyrch mawr ar y gweill gan y ffasgwyr. Roedd hon yn frwydr galed iawn i mi a gweddill y dynion gan fod cymaint yn gwrthryfela yn ein herbyn."*

Cydenillydd arall y wobr 1af oedd Harriet Billingsley o Ysgol Gyfun Penglais, Aberystwyth. Aeth y 3edd wobr i Michael Smidman o Ysgol Brynteg, Pen-y-bont ar Ogwr. Cafwyd canmoliaeth uchel i gynigion Isabella Boorman, Laura Henderson ac Andrea Thomas (oll o Benglais) a Naomi Davies (Ysgol Gyfun Cefn Saeson, Castell-nedd). Carem ddiolch i'r holl ddisgyblion fu'n cymryd rhan; gwnaethant dasg y beirniaid yn un werth chweil.

## *YN UNION* YN ROCIO!



Mae gan *Yn Union,* cystadleuaeth hawliau dynol flynyddol CEWC-Cymru, ongl newydd eleni. Rydym yn gofyn i ddisgyblion lunio cân sy'n seiliedig ar un o'r erthyglau canlynol o'r *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol:*

- Erthygl 18: rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
- Erthygl 19: rhyddid barn a mynegiant
- Erthygl 26: yr hawl i addysg

Gall unrhyw fath o grŵp cerddorol gymryd rhan, boed yn fand trydanol neu'n gerddorfa ysgol lawn. Gofynnir i'r ymgeiswyr anfon copi o'r gân ar CD neu dâp, ynghyd â'r geiriau ac ysgrif fer yn disgrifio'r syniad y tu ôl i'r gân. Dyddiad cau y gystadleuaeth yw 18 Ebrill, a gwahoddir yr ymgeiswyr buddugol i gymryd rhan ym **Mrwydr y Bandiau** mewn cynhadledd hawliau dynol ym mis Mai. Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch **cewc@wcia.org.uk**.

## CELFYDDYD CYD-DDEALL



Yn 2004 cynhaliwyd digwyddiad yn arbennig ar gyfer disgyblion ysgol gynradd. Yn rhan o'n **Cynhadledd Un Byd** yn Sefydliad y Glöwyr yn y Coed-duon ym mis Tachwedd, cafwyd gweithdai ar y celfyddydau oedd yn annog plant 7-11 oed i drafod amrywiaeth a goddefgarwch. Yn ystod y bore, bu Cassy Healey o The Artery yn sbarduno'r disgyblion i greu teiliau llythrennau'r wyddor oedd yn eu hannog i feddwl am emosiynau a dyfeisiau positif sy'n uno'r byd. Yna arweinodd Phil Carradice weithdy barddoniaeth lle y buont yn llunio cerddi am gynwysoldeb a dathlu'r gwahanol. Cafodd y rhain eu casglu mewn blodeugerdd yn ddiweddarach. Yn y prynhawn, bu Theatr Gwent yn arwain gweithgareddau drama i ystyried yr her o fynegi eich hunan heb eiriau pan nad ydych yn deall iaith arall.

## DADLEUWYR O GYMRU YN Y RAS

Julian Hodge Bank



Unwaith eto bu Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru Banc Julian Hodge 2004 yn boblogaidd. Cymerodd 51 o ysgolion a cholegau ran mewn dadleuon a oedd yn gyffrous, ac weithiau'n danbaid. Cynhaliwyd yr ornest derfynol yn y Deml Heddwch ym mis Tachwedd, lle bu Stephen Jenkins a Steffan Powell (Ysgol Dyffryn Aman) yn dadlau yn erbyn Lewis Turner ac Amy Ludlow (Ysgol Gyfun Caerllion) ar y cynnig *"Mae'r Tŷ hwn yn cefnogi masnach rydd fydeang"*. Dewisodd y beirniaid - Paul James (Banc Julian Hodge) Dafydd Wyn (cyn-drefnydd dadleuon a hyfforddwr), Sue Rivers (Ymddiriedolwr, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru), James Brimble (Ffederasiwn Ddadlau Cymru) a Martin Pollard (CEWC-Cymru) y tîm o Rydaman yn fuddugol.

Roedd Steffan a Stephen yn ennill eu lleoedd felly ar dîm Cymru ar gyfer Pencampwriaeth Ddadlau Ysgolion y Byd 2005. Ar y diwrnod Dewis Unigolion, dewiswyd tri dadleuydd arall yn aelodau eraill y tîm: Lewis ac Amy (yr ail oreuon yn yr ornest derfynol) a Harry Thomas (Coleg Crist, Aberhonddu).

Cynhaliwyd Pencampwriaeth y Byd 2005 yn Calgary, Canada ym mis Chwefror. Cynhaliwyd dadleuon ar archwilio'r gofod, ariannu pleidiau gwleidyddol gan y wladwriaeth, gweithredu cadarnhaol a pholisi addysgol.

Enillodd Cymru 5 allan o 8 o'r dadleuon yn y rowndiau agoriadol, yn gorffen yn 12eg o'r 31 wlad oedd yn cystadlu. Collwyd yn erbyn yr Ariannin yn y rownd nesaf: aeth y tîm o Dde America ymlaen i'r rownd gyn-derfynol. Am y drydedd flwyddyn yn olynol Awstralia oedd pencampwyr y byd.

Roedd y digwyddiad yn Calgary hefyd yn gyfle i ni hyrwyddo Pencampwriaeth y Byd y flwyddyn nesaf, a gynhelir yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2006. Os yw eich ysgol chi am lywyddu dadl yn ystod Pencampwriaeth y Byd, neu os gallwch gynnig cymorth i drefnu'r digwyddiad, e-bostiwch **convenor@wales2006.com**.

Dylunio elfen.co.uk

www.cewc-cymru.org.uk

FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk Elusen gof. rhif 1048759

CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH • PARC CATHAYS • CAERDYDD • CF10 3AP